

Coleg y Cymoedd

# Gwobrau Cydnabyddiaeth

27.03.23














Mae Gwobrau Cydnabyddiaeth Coleg y Cymoedd yn cydnabod gwaith rhagorol ac ymrwymiad cydweithwyr ar draws y coleg; y rhai hynny sy'n mynd yr ail filltir; y rhai hynny sy'n arloesi ac yn ysbrydoli; y rhai hynny sy'n gwneud cyfraniad nodedig ac yn dylanwadu'n sylweddol ar eu dysgwyr, ar gydweithwyr neu ar flaenoriaethau'r coleg; a'r rhai hynny sy'n haeddu derbyn cydnabyddiaeth am yr ymdrech y maen nhw'n eu rhoi yn eu rolau.



# Croeso

Rydw i'n falch iawn o allu cynnal seremoni wobrwyo staff 2023 ac i gydnabod gwaith gwych cydweithwyr ar draws y coleg. Eleni, cawsom y nifer uchaf erioed o enwebiadau teilwng iawn ac mae hyn yn arwydd o'r talent, y dulliau arloesol a'r ymroddiad a welwn ym mhob maes yn y coleg.

Hoffwn longyfarch pawb sy'n derbyn gwobrau heno yn gynnes iawn.

Jonathan Morgan
**Pennaeth**

# Gwobrau

## Gwobr Gymraeg | Welsh Award

Mae'r wobr hon yn cydnabod unigolyn neu dîm sydd nid yn unig wedi hyrwyddo dwyieithrwydd ond sydd wedi ceisio meithrin ethos dwyieithog lle mae'r Gymraeg a dwyieithrwydd wedi'u hymgorffori mewn gwerthoedd craidd. Gall gweithgarwch o'r fath gynnwys cefnogi a buddsoddi yng ngallu staff i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog, mentrau cwricwlwm sy'n ehangu'r cyfleoedd ar gyfer astudio drwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog neu gynllunio strategol ar gyfer datblygu ethos Cymreig. Yn ogystal, gwahoddir enwebiadau lle mae rhywun yn gallu dangos bod dimensiwn Cymreig wedi'i wreiddio'n effeithiol yng nghwricwlwm a bywyd bob dydd y coleg neu ddarparu ffyrdd arloesol a llwyddiannus o annog astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Enillydd: Emyr Morgan**
Mae Emyr yn ymgorffori dwyieithrwydd yn y sesiynau mae'n eu cyflwyno ochr yn ochr â chynnig sesiynau hybrid i ddysgwyr nad ydyn nhw'n gallu dod i'r ystafell ddosbarth. Mae pob dysgwr yn gallu cael mynediad at waith yn ddwyieithog ar Teams. Mae Emyr hefyd yn neilltuo'i amser i weithio gyda dysgwyr Cymraeg eu hiaith nad yw'n eu haddysgu fel arfer ond sy'n cael trafferth gyda'r cyfieithiadau Cymraeg a Saesneg. Mae Emyr hefyd yn gweithio gyda'i gyfoedion i rannu'r arfer da hwn.

## Gwobr Cynwysoldeb

Mae'r wobr hon ar gyfer unigolyn neu dîm sydd wedi dangos cynwysoldeb rhagorol yn y coleg. Bydd yr enwebeion wedi creu effaith, wedi ysbrydoli eraill ac wedi cyfrannu at ymrwymiad y coleg i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth.

**Enillydd: Arweinwyr Tîm Cymorth Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol**
Mae cynhwysiant ar gyfer dysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol wrth wraidd popeth mae'r Arweinwyr Tîm Cymorth yn ei wneud. Mae eu gwaith gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol yn sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei gynnwys a bod y canlyniadau gorau yn cael eu cyflawni i ddysgwyr. Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud gan yr Arweinwyr Tîm Cymorth yn sicrhau bod dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael cymorth priodol, cyson o ansawdd sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd a'i addasu i fodloni anghenion yr unigolyn. Maen nhw'n allweddol i sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu ar draws pob campws.

## Gwobr am Wasanaeth Rhagorol

Mae'r wobr hon yn dathlu cydweithiwr neu dîm sydd wedi dangos ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth rhagorol yn barhaus. Byddan nhw wedi cael effaith sylweddol ar ddysgwyr, staff ac ysgolion/meysydd gweithredol y coleg ac wedi cyfathrebu'n agored a dangos ffyrdd arloesol o wneud pethau yn ogystal â hyrwyddo diwylliant o wasanaeth gofal i gwsmeriaid yn y coleg, gan drin pob defnyddiwr gwasanaeth yn gyfartal a cheisio gwelliant parhaus mewn darpariaeth gwasanaeth i safon ragorol.

**Enillydd: Neil Evans**
Mae Neil yn annog ei ddysgwyr i gymryd perchnogaeth a chyfrifoldeb am eu cymwysterau. Mae'n cefnogi'r dysgwyr a'r cyflogwyr o ran eu patrymau gwaith ac yn addasu dulliau asesu sy'n galluogi dysgwyr i gyflawni eu cymwysterau yn llwyddiannus a chyrraedd eu potensial. Mae'r proffesiynoldeb a'r gefnogaeth mae Neil wedi'u dangos tuag at ddysgwyr a chyflogwyr wedi ysbrydoli dysgwyr i symud ymlaen ac ennill eu cymwysterau a rhagori yn eu proffesiwn. Mae cefnogaeth ac ymroddiad Neil wedi arwain at gydnabyddiaeth gan gyflogwyr a dysgwyr, yn ogystal â gwella'r partneriaethau gwaith ac ehangu rhaglenni prentisiaeth gyda Choleg y Cymoedd.

## Gwobr Ymroddiad Rhagorol

Mae'r wobr hon yn cydnabod cydweithiwr unigol sy'n dangos ymroddiad ac ymrwymiad rhagorol i Goleg y Cymoedd.

**Enillydd: Phil Gorman**
Dros y blynyddoedd, mae Phil wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr i WorldSkills. Mae ei ymrwymiad a'i ymroddiad i'r dysgwyr a'r gystadleuaeth ei hun wedi bod yn ddiwyro, ac nid oedd eleni'n eithriad wedi i Phil ohirio dathlu pen-blwydd nodedig y mis hwn gan wirfoddoli i fynd gyda dysgwyr i'r Alban yn lle hynny.

## Llwyddiant Tîm

Mae'r wobr hon yn cymeradwyo tîm sydd wedi ymdrechu a llwyddo i wneud cyfraniad rhagorol i'r coleg a'i bartneriaid amrywiol, boed rheini yn gydweithwyr, dysgwyr neu randdeiliaid eraill.

Bydd dwy wobr: un ar gyfer Cymorth Academaidd ac un ar gyfer Cymorth Busnes

**Enillydd (Academaidd): Tîm cydlynu y Ganolfan Safon Uwch**
Yn 2022 gwelwyd y set orau o ganlyniadau Safon Uwch yng Ngholeg y Cymoedd, gyda chyfradd lwyddo gyffredinol o 99.6%. Gwelwyd cynnydd rhagorol o 28% o gymharu â 2019 yn ein graddau A*-C, tra bu cynnydd eithriadol o 22% yn nifer y dysgwyr a enillodd y graddau A* ac A ar lefel U2. Mae'r tîm yn mynd y tu hwnt i ofynion eu swyddi'n rheolaidd i ddarparu gofal, cymorth, arweiniad a chyngor rhagorol ac amserol i'n holl ddysgwyr Safon Uwch. Mae'r tîm wedi cefnogi dros 400 o ddysgwyr i gyflawni eu set orau o ganlyniadau Safon Uwch, i gael mynediad at yr ystod ehangaf o gyrsiau israddedig (llawer ohonynt ym mhrifysgolion Grŵp Russell) ac i dderbyn y nifer uchaf o gynigion gan Rydychen a Chaergrawnt o blith unrhyw ddarparwr ôl-16 yn Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

**Enillydd (Cymorth Busnes): Pobl a Diwylliant**
Yn dilyn ailstrwythuro'r adran, mae'r tîm wedi mynd o nerth i nerth gan sicrhau canlyniadau cryf yn gyson. Mae cymorth ar gyfer llesiant wedi bod yn eithriadol ac mae digwyddiadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus fel yr Ŵyl Llesiant a'r Ŵyl Gynhwysiant (y cyntaf o'i bath mewn coleg addysg bellach yng Nghymru) wedi arwain y sector. Mae ailwampio prosesau recriwtio'r coleg wedi galluogi'r coleg i ddenu rhai o'r doniau gorau sydd i'w cael! Mae adborth gan reolwyr a chymheiriaid wedi bod yn hynod gadarnhaol ac mae'r tîm wedi gweithio'n galed i fod yn fwy gweladwy a hygyrch i'r bobl maen nhw'n eu cefnogi.

## Dysgu ac Addysgu

Mae'r wobr hon yn cydnabod cydweithiwr sy'n creu hinsawdd ar gyfer addysgu a dysgu yn yr ystafell ddosbarth sy'n dangos brwdfrydedd dros ddysgu, sy'n gosod disgwyliadau uchel, ac sy'n cyflawni canlyniadau rhagorol. Byddan nhw'n dangos ymrwymiad i addysgu pob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr heriol, i anelu'n uchel ac yn eu cefnogi i gyflawni eu dyheadau. Byddan nhw'n monitro profiad a chynnydd pob dosbarth yn weithredol ac yn addasu eu dull i ystyried anghenion dysgwyr unigol a'r dosbarth cyfan. Byddan nhw'n ymgysylltu ag eraill wrth gefnogi dysgu a datblygiad dysgwyr, gan gynnwys cydweithwyr, rhieni, swyddogion cymorth dysgu a gweithwyr proffesiynol eraill. Byddan nhw'n dangos ymrwymiad parhaus i'w datblygiad personol proffesiynol eu hunain.

**Enillydd: Cara St. Clair**
Nod Cara yw siarad am sefyllfaoedd 'bywyd go iawn' amserol yn ystod ei dosbarthiadau sy'n ennyn diddordeb ei dysgwyr. Mae Cara'n deall sensitifrwydd rhai o'r pynciau mae'n ymdrin â nhw ac mae bob amser yn sicrhau bod cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith i gefnogi dysgwyr pe bai angen. Mae dysgwyr Cara yn ffynnu yn ei sesiynau. Mae awyrgylch ymlaciol a thawel yn ei sesiynau lle gall dysgwyr fynegi eu barn a'u profiadau eu hunain ac mae dysgwyr yn edrych ymlaen at fynychu dosbarthiadau Cara.

## Cefnogi Llesiant Dysgwyr

Mae'r wobr hon yn cydnabod tîm neu Ysgol sydd wedi dangos ymdrech eithriadol wrth gefnogi gofal bugeiliol dysgwyr. Mae'r wobr hon ar gyfer tîm neu Ysgol sydd wedi mynd y tu hwnt i'w dyletswyddau i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i gyfnod y dysgwyr yn y coleg.

**Enillydd: Dan Owens**
Mae Dan yn cefnogi cydweithwyr a dysgwyr ar bob lefel ar draws y coleg gyda phob agwedd ar eu llesiant digidol. Mae'n arwain drwy esiampl bob amser, gan osod naws gadarnhaol mewn trafodaethau, tiwtorialau a gweithdai ac yn ysbrydoli ac yn rhannu gwybodaeth ag eraill yn barhaus. Mae Dan yn angerddol am addysgu dysgwyr am oblygiadau ac effeithiau hirdymor eu hymddygiad ar-lein. Mae wedi rhoi cymorth uniongyrchol i unigolion yn ogystal â grwpiau o ddysgwyr, yn ystod cyfnod heriol iawn. Mae Dan hefyd yn ymwneud yn rhagweithiol â gweithgorau'r coleg yn ogystal â'r llywodraeth genedlaethol a chyrff cyhoeddus fel TARIAN Cyber Crimes.

## Ysbrydoli Dysgwyr

Mae'r wobr hon ar gyfer unigolyn sy'n cael ei gydnabod gan ddysgwyr fel un sy'n dangos rhinweddau eithriadol fel Darlithydd neu aelod o staff nad ydynt yn addysgu. Bydd yr enwebai wedi ysbrydoli a chymell dysgwyr gyda'u brwdfrydedd, eu dealltwriaeth a'u dull cyfeillgar i'w galluogi i gyflawni eu nodau uchelgeisiol.

**Enillydd: Mark James**
Mae Mark wedi gweld potensial pob dysgwr unigol yn gyson ac yn barhaus ac wedi eu herio a'u hymestyn, mewn gwahanol ffyrdd, i'w cefnogi i ragori yn eu taith addysgol. Mae'n annog dysgu a chymorth gan gymheiriaid yn barhaus, yn trefnu gweithgareddau cwricwlwm ychwanegol i gyfoethogi taith y dysgwr ac yn chwilio am y potensial ym mhob unigolyn ac yn eu hymestyn i gyflawni pethau nad oedden nhw erioed wedi meddwl oedd yn bosib. Mae Mark yn helpu pob dysgwr sydd wedi dangos diddordeb mewn gwella ac yn ymdrechu i'w hysbrydoli. Mae ei ymroddiad di-ildio i bob dysgwr ac i ganolbwyntio arnyn nhw yn golygu eu bod nhw'n dod yn Gogydd a'r unigolyn gorau y gallan nhw fod.

## Effaith Gadarnhaol

Mae'r wobr hon yn cydnabod unigolion neu dimau sydd wedi dangos dycnwch a gwytnwch yn wyneb her ac adfyd i wneud gwahaniaeth, gan gyflawni nodau ar gyfer eu hunain, dysgwyr a/neu gymuned y coleg.

**Winner: Holly Richards**
Mae Holly wedi agor drysau'r Ganolfan Safon Uwch i ddysgwyr o ardaloedd demograffig difreintiedig sydd â llai o gyfleoedd i gyflawni eu llawn botensial, gan gynnwys llwybrau at feysydd proffesiynol y gallen nhw ei chael yn anodd cael mynediad iddynt fel arall. Mae Holly wedi cefnogi ein dysgwyr MAT yn eu ceisiadau i brifysgolion Grŵp Russell a Chaergrawnt neu Rydychen, wedi sefydlu cynllun Mentora Merched ar gyfer y rhai sydd am fynd i'r maes cyfreithiol, sefydlu clwb dadlau a hi'n sy'n rhedeg rhaglen Seren. Gydag arweiniad Holly mae ein dysgwyr yn ffynnu ac yn gosod Coleg y Cymoedd ar y map gyda chynigion i astudio mewn sefydliadau addysg uwch nodedig, gan gynnwys Rhydychen a Chaergrawnt.

## Gwobr Newydd-ddyfodiad Rhagorol

Mae'r wobr hon yn cydnabod unrhyw un sydd wedi dangos agwedd eithriadol tuag at eu dewis broffesiwn ac sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'r coleg ers ymuno â ni. Bydd enwebiadau'n gallu dangos sut maen nhw wedi cefnogi gwelliannau i wasanaethau ac wedi bod yn aelod effeithiol o'r coleg i gefnogi cydweithwyr neu ddysgwyr.

**Enillydd: Hannah Hallett**
Ers ymuno â'r tîm ym mis Rhagfyr 2021, mae Hannah wedi trawsnewid ochr weithredol y tîm Pobl a Diwylliant. Gwnaeth ymdrech ymwybodol i ddod i adnabod y tîm presennol gan fentora aelodau newydd o'r tîm. Mae hi wedi gweithio'n galed i droi'r tîm o fod yn Adnoddau Dynol i Bobl a Diwylliant ac wedi cyflwyno mentrau newydd anhygoel, gan gynnwys y Rhaglen Llwybrau a darpariaeth cwnsela ac iechyd galwedigaethol newydd. Mae Hannah yn ddatryswr problemau ac yn ddylanwadwr ac yn fodel rôl anhygoel i'w thîm – ac i Hannah y tîm sydd bwysicaf!

**Enillydd: Morgan Evans**
Ers ymuno â Choleg y Cymoedd, mae Morgan wedi cael dylanwad aruthrol ar ethos holl gymuned y coleg. Mae ei negeseuon creadigol a doniol ar Teams yn chwa o awyr iach ac yn ddi-os, i'r mwyafrif, wedi newid canfyddiadau pobl o'r tîm Pobl a Diwylliant – mae cydweithwyr bellach yn cydnabod bod y tîm yno i helpu a chefnogi pawb yn y coleg. Mae Morgan wedi dangos agwedd eithriadol ac nid yn unig wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'w dîm ond i'r coleg ehangach. Drwy ailwampio prosesau recriwtio'r coleg, mae Morgan wedi galluogi Coleg y Cymoedd i ddenu a chadw rhai o'r doniau gorau sydd i'w cael.

**Enillydd: Sean Morgan-Brewer**
Mae Sean wedi arloesi drwy annog pobl i osgoi defnyddio arferion nad ydynt yn gyfeillgar i'r amgylchedd ar dir yr Ystâd. Mae wedi adolygu sut rydyn ni'n edrych ar ffyrdd amgen o reoli chwyn a phlâu ac wedi rhoi ffyrdd newydd o weithio ar waith. Mae wedi defnyddio tir gwag i dyfu llysiau ac mae'n annog gweddill y Tîm Ystadau i gymryd rhan er mwyn gwella eu llesiant. Mae ei ddiddordeb mewn bywyd gwyllt wedi bod yn gaffaeliad wrth ystyried sut rydyn ni'n gwneud pethau ar y safle ac o ganlyniad rydyn ni wedi gwneud addasiadau i gynnal y bywyd gwyllt presennol ac annog rhagor o fywyd gwyllt. Mae Sean yn ffynnu ar yr hyn mae'n ei wneud ac yn cael cymaint o wefr o wybod bod ei gyfraniad yn talu ar ei ganfed tuag at gynaliadwyedd a dull carbon sero net y coleg.

## Arweinydd Rhagorol

Mae'r wobr hon yn cydnabod arweinydd rhagorol sydd â hanes profedig o weithio gyda'i dîm i gyflawni canlyniadau rhagorol o fewn eu maes cyfrifoldeb. Dylai fod gan yr enwebai sgiliau arwain cryf a'r gallu i ddangos ymrwymiad i ddarparu gwelliant parhaus a bod yn rhagweithiol gyda hynny. Dylai nodweddion allweddol hefyd gynnwys dull blaengar o ganolbwyntio ar gwsmeriaid a darparu gwasanaethau, bod yn weladwy, yn hawdd mynd atynt ac yn ymatebol i'w tîm, a gallu ysbrydoli, ysgogi ac ymgysylltu ag eraill, gan drin pawb yn deg a chyson. Yn ogystal, dylai'r enwebai allu dangos y gallu i annog eraill i gyrraedd eu llawn botensial, drwy ddatblygiad â chymorth ac, ar ben hynny, gydnabod cyfraniad unigolyn a/neu dîm at dasgau penodol.

**Enillydd: (Academaidd) Lee Davies**

Mae Lee yn arweinydd rhagorol sy'n ymdrechu am ragoriaeth ym mhopeth a wna. Mae Lee yn trin ei dîm yn feddylgar, gydag empathi a chydraddoldeb. Mae'n eu cefnogi a'u gwthio i gyflawni eu gorau. O dan ei arweiniad mae'r adran wedi tyfu'n agosach fel tîm, tîm sy'n gweithio tuag at ragoriaeth ac yn ei gyflawni.

**Enillydd: (Cymorth Busnes) Dorian Adkins**

Mae gwaith y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) wedi bod yn heriol iawn i bob Cydlynydd ADY ar draws y sector addysg bellach wrth gynllunio a gweithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ALNET). Cafodd Dorian ei swydd ar adeg pwysig yn ystod y broses hon ac roedd yn ofynnol iddo ddechrau ar y gwaith yn syth. Mae Dorian wedi mynd y tu hwnt i'r gofyn yn ystod y cyfnod hwn i sicrhau bod ganddo'r wybodaeth a'r gallu i gwrdd â'r heriau a ddaw yn sgil hyn. Mae Dorian yn deall yn iawn y rôl werthfawr mae ei adran yn ei chwarae ac mae wedi sicrhau cyfrifoldebau ychwanegol i sicrhau bod y coleg yn bodloni anghenion ei ddysgwyr. O dan ei arweinyddiaeth mae'r tîm yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, bod ganddyn nhw lais a bod rhywun yn gwrando arnyn nhw, ac mae Dorian yn eu hannog yn frwd i roi mewnbwn a siapio sut mae'r coleg yn cynnig cymorth. O ganlyniad, daeth adran Dorian i'r brig fel un o'r rhai hapusaf yn Arolwg y Bobl diweddar y coleg.

## Gwobr i Weithiwr Neilltuol

Mae'r wobr hon yn cydnabod cydweithiwr sydd wedi dangos perfformiad a chyrhaeddiad rhagorol ym maes Cymorth Busnes neu Gymorth Academaidd gan ddangos creadigrwydd, menter ac arloesedd.

**Enillydd: Nia Wyn Williams**

Gyda bron i 40 mlynedd o wasanaeth, mae cyfraniad ac ymrwymiad Nia i ddatblygiad y cwricwlwm a lles dysgwyr wedi bod yn amhrisiadwy. Mae hi'n ddiflino wrth geisio sicrhau cyflawniad dysgwyr ac i ddysgwyr gyflawni eu potensial llawn, yn aml yn rhoi o'i hamser ei hunan i ddarparu'r cymorth ychwanegol sydd ei angen ar ei dysgwyr. Mae Nia wedi ymrwymo 100% i'w dysgwyr ac mae'n aelod allweddol o'r tîm Creadigol, yn aml yn cymryd perchnogaeth dros gefnogi a mentora cydweithwyr newydd. Mae hi'n gofalu amdanon ni ac rydyn ni i gyd yn gwybod hynny! Er gwaethaf anawsterau personol dros y blynyddoedd diwethaf, mae cryfder cymeriad Nia, ei hagwedd at waith a'i brwdfrydedd am fywyd wedi bod yn ddim llai nag ysbrydoledig. Hi yw ein Harwres!

## Gwobr y Pennaeth

**Enillydd: Kelly Howells**

Coleg y Cymoedd